# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Swyddogion gorfodi amaethyddol*

## 8 Penodi swyddogion

(1) Caiff Gweinidogion Cymru benodi swyddogion i weithredu yng Nghymru at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i swyddog, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos rhyw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos bod gan y swyddog yr awdurdod i weithredu.

(3) Os ymddengys i swyddog, wrth iddo weithredu at ddibenion y Ddeddf hon, nad yw unrhyw berson y mae'r swyddog yn ymdrin ag ef yn ymwybodol bod y swyddog yn gweithredu yn y fath fodd, rhaid i'r swyddog hysbysu'r person am y ffaith honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

## 9 Gwybodaeth a ddaw i feddiant swyddogion

(1) Caniateir rhoi gwybodaeth a ddaw i feddiant swyddog sy'n gweithredu at ddibenion y Ddeddf hon—

- (a) i Weinidogion Cymru, a
- (b) pan fo'n ymwneud â gweithiwr amaethyddol adnabyddadwy, i'r gweithiwr hwnnw.

(2) Ni chaniateir i Weinidogion Cymru roi'r wybodaeth i unrhyw berson neu gorff arall oni bai bod yr wybodaeth yn cael ei rhoi at ddibenion unrhyw achos sifil neu achos troseddol sy'n ymwneud â'r Ddeddf hon.

(3) Nid yw'r adran hon yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle y caniateir rhoi neu ddefnyddio gwybodaeth ac eithrio ar gyfer yr adran hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Swyddogion gorfodi amaethyddol. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 9 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Swyddogion gorfodi amaethyddol.